

Grŵp Cyngori ar Faterion Moesol a Moesegol COVID-19: Cymru
Dydd Iau 9 Gorffennaf 2020 16:00-17:30

Trwy Skype.

Cam gweithredu	Yn gyfrifol
1. Sharon i ystyried adborth ac ateb unrhyw bwyntiau sy'n weddill	Sharon West

Yn bresennol

Heather Payne (Cadeirydd), Aled Roberts, Aled Edwards, Alison Mawhinney, Alison Parken, Chantal Patel, Carol Wardman, Helena Herklots, Liz Davies, Sean O'Neil, Kevin Francis

Siaradwyr gwadd

Kate Young – Cyngorair Cynhalwyr Cymru

Sharon West –Y Tim Olrhain Contractau, Llywodraeth Cymru

Nodyn o'r Cyfarfod

Rhif	Pwnc
1.	<u>Croeso, Ymddiheuriadau a Chyflwyniadau</u> Gwnaeth y Cadeirydd gyflwyniadau a nodi ymddiheuriadau. Cafwyd ymddiheuriadau gan Rocio Cifuentes. Ni fyddai Skype yn gweithio i Rhian Davies.
2.	<u>Cofnodion blaenorol</u> Cofnodion wedi'u cytuno. Newid ap olrhain i ap agosrwydd. <u>Camau gweithredu</u> Cytunwyd ar bob un
3.	<u>Papur ar ofalwyr</u> Trafododd Kate Young safbwynt y gynghrair eang sef Cyngorair Cynhalwyr Cymru. Nodwyd bod Deddf Llesiant 2014 wedi'i hatal i raddau. Mae angen i unrhyw gynlluniau adfer gydnabod yr unigolyn sy'n derbyn gwasanaethau a hefyd y gofalwr ei hun. Mae gan y Gynghrair bryderon ynghylch a fydd gwasanaethau'n aildechrau, beth fydd yn wahanol a sut mae trafodaethau'n cael eu cynnal. Efallai y bydd angen i hawliau gofalwyr wella a chanolbwyntio ar wybodaeth hygyrch. Pryder arall yw'r nod o hyrwyddo penderfyniadau a wneir er lles pawb ac nid ydynt yn seiliedig ar oblygiadau ariannol yn unig. Gan fod gofalwyr wedi ymdopi o dan yr amgylchiadau hyn, mae pryderon y caiff cymorth ei dynnu yn ôl, gydag ymgyrch i sicrhau y dylai'r rhai yr oedd arnynt angen cymorth gael cymorth o hyd. Ystyrir bod caledi a thlodi yn risg fawr i ofalwyr. Mae angen ystyried canllawiau PPE a groesawyd yn ystod yr wythnos diwethaf, sy'n canolbwyntio ar fynediad, offer a'r gallu i

ddarparu gofal. Mae rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn fater o bryder lle mae aelodau o'r teulu wedi'u rhyddhau heb drafodaeth â gofalwyr.

Diolchodd y grŵp i Kate am ei phwyntiau trafod ac roedd am ganmol ymroddiad a gwaith gofalwyr.

Cafwyd trafodaeth am hyfforddiant neu'r wybodaeth a oedd ar gael i ddarparu cymorth. Mae gwybodaeth yn dameidiog ac yn cael ei darparu gan y trydydd sector yn bennaf. Gyda chynllun ffyrlo yn ei le, mae gan y trydydd sector llai o staff i ddarparu cymorth. Mae anghysondeb yn y canllawiau yn ei gwneud yn anodd rhoi negeseuon cyson.

Meddyginiaethau – mae llawer o ofalwyr am ddarparu meddyginiaeth ddiogel heb iddi fynd yn rhy feichus. Roedd hyn yn cael ei ystyried cyn Covid. Mae'r adborth a roddwyd wedi awgrymu bod Covid-19 wedi atal gwasanaethau llyfn rhag cael eu darparu gan nyrsys sy'n golygu bod gofalwyr yn gorfod defnyddio lefel uwch o sgiliau meddygol. Gall fod yn fwy priodol i hyn gael ei ystyried gan grŵp sy'n trafod cyflyrau penodol yn hytrach na CMEAG, ond hoffem ddod o hyd i'r lle cywir ar gyfer y cwestiwn hwn.

Mae'n anodd cydnabod gofalwyr, hyd yn oed ymhlith pobl sy'n ofalwyr eu hunain. Mae angen gwella lefel y ddealltwriaeth ym mhob rhan o'r GIG. Mae Rhwydwaith Cyflogwyr ar gyfer Gofalwyr sy'n gwneud gwaith pwysig yn hyn o beth a ddylai byrddau iechyd fod yn rhan o hyn. Mae angen codi ymwybyddiaeth o ofalwyr tra'n osgoi rhoi stigma i grwpiau.

Mae cam-drin pobl hŷn yn broblem gynyddol ac mae angen iddynt ddatblygu'r ymatebion i hyn wrth i'r cyfyngiadau gael eu codi. Gellir defnyddio grwpiau crefyddol fel cysylltwyr cymunedol.

Gofalwyr o bob oed – mae bod yn ynysig yn faes sy'n peri pryder enfawr. Mae gofalwyr ifanc wedi colli addysg, seibiant a chymorth gan gymheiriaid. Bydd angen mwy o hyblygrwydd ar Ofalwyr Ifanc na'u cyfoedion ac mae angen i ysgolion ystyried sut i alluogi dysgu.

Wrth i weithio gartref gael ei normaleiddio, mae angen bod yn ymwybodol o'r effaith ar y rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu. Ynghyd â phrotocolau a chydabyddiaeth nad yw'n gweddu i bawb.

Gwarchod – wrth inni roi'r gorau i warchod ein hunan, mae angen mwy o barch i'r rhai sy'n gwarchod o hyd. Efallai na fydd gofalwyr ifanc am gydnabod eu bod yn gwarchod eu hunain.

Camddefnyddio alcohol – wedi bod ar gynydd yn ystod Covid-19. Angen ailystyried problemau sy'n ymwneud â chamddefnyddio alcohol a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar blant a gofalwyr.

Mae Aseidiadau'r effaith ar y Gymraeg yn fater sydd wedi gwaethygu yn ystod Covid-19. Nid mater o hawl yn unig, mae'n fater o ansawdd i ofalwyr.

Effeithiwyd ar deuluoedd oherwydd y cyfyngiadau symud. Cydbwysedd anodd rhwng amddiffyn pobl a galluogi hawliau pobl. Mae negeseua'n bwysig iawn wrth baratoi ar gyfer ail don.

Maes sy'n peri pryder mawr yw'r polisi ar gyfer hosbisau ar gyfer Diwedd Oes. Mae gwadu mynediad i bobl i ffarwelio yn destun pryder mawr.

<p>4.</p>	<p><u>Olrhain Cysylltiadau</u></p> <p>Mae profi, olrhain ac amddiffyn yn cynnwys 3 rhan:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Mynediad cyflym 2. Olrhain cynhwysol cyflym 3. Diogelu'r gymuned er mwyn hwyluso hunan-ynysu. <p>Dull sydd wedi profi ei werth, ond ar raddfa enfawr. Canolbwyntio ar atal y clefyd, ond hefyd ddeall y clefyd. Bydd y strategaeth TTP yn parhau ac nid yw'n ap. Mae ap yn cael ei greu yn Lloegr, ond nid yw Cymru'n ymwneud â'i ddatblygiad. Nid yw Cymru yn mabwysiadu dull canolfan alwadau. Yn hytrach, defnyddio arbenigedd lleol a gwahanol lefelau o swyddogion olrhain cysylltiadau. Lefel gychwynol yn gweithio o sgriptiau. Gellir ei uwchgyfeirio at weithwyr gofal iechyd proffesiynol hyfforddedig</p> <p>Os ceir canlyniad cadarnhaol, hysbysir swyddogion olrhain cysylltiadau sydd wedyn yn cysylltu â'r unigolyn. Mae'r holl wybodaeth yn gyfrinachol a gofynnir i bobl ddatgelu'r rhai y maent wedi bod mewn cysylltiad â hwy naill ai o fewn 1m, wyneb yn wyneb, cyswllt corfforol neu 2m am fwy na 15 munud.</p> <p>Yna gofynnir i bobl hunan-ynysu am 14 diwrnod a hysbysu eu cyflogwr. Byddant yn cael cadarnhad ysgrifenedig</p> <p>Dilyn i fyny bob dydd dros y ffôn neu drwy neges destun. Mae'r holl wybodaeth a ddarperir yn wirfoddol. 350 o achosion wedi'u mynegeo mewn un wythnos, cysylltu â 81%. Meincnodi rhyngwladol sy'n dangos ei fod yn mynd yn dda. Fel arfer, mae gan bobl tua 3 o gysylltiadau.</p> <p>Amser a gymerir i gael canlyniadau – yn dibynnu o ble mae'r profion yn dod. 90% o fewn 48 awr. Pecynnau profi cartref yn arafach. Nid prawf gwrthgyrff, prawf anigenau. Cynlluniau penodol ar gyfer gwahanol weithwyr allweddol. Gofynnodd y grŵp am adborth penodol i'r rhai sy'n gweithio mewn ym maes trallwysu gwaed a chytunodd Sharon i roi adborth.</p> <p>Disgwylir canllawiau yn fuan iawn mewn sectorau lletygarwch. Mae'r canllawiau presennol yn gofyn i bobl gadw cofnodion o bobl sy'n mynd i mewn i'r safle. Derbyniodd na fydd olrhain yn bosibl mewn rhai achosion.</p> <p>Mae negeseuon cyfathrebu'n cael eu cyhoeddi ac yn tanlinellu na ofynnir byth am arian byth ac mai un rhif ffôn swyddogol a ddefnyddir at ddibenion cysylltu. Mynegwyd pryderon ynghylch troseddwy'r clonio'r rhif hwn.</p> <p>Hyfforddiant i staff sy'n gwneud y profi ac olrhain – pa hyfforddiant arbenigol y maent wedi'i gael i'r rhai ag anableddau dysgu. Defnyddiol wrth brofi i wybod unrhyw wybodaeth benodol a all helpu gyda'r alwad ffôn.</p> <p>Diolchodd y grŵp i Sharon am yr wybodaeth.</p>
<p>6.</p>	<p>Unrhyw fater arall Agenda ymchwil – croesawyd yr adborth.</p> <p>Cyfarfod nesaf Cytunwyd i gyfarfod eto mewn pythefnos.</p>

